

Ffurflen 45 Deddf Tiroedd Comin 2006 - Adran 15(1)

Hysbysiad o gais am gofrestru tir fel maes tref neu bentref

I bob perchennog, lesddeiliad, tenant neu feddiannydd ar unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir isod, ac i bawb arall a fynno wybod.

Mae cais wedi'i wneud i Ddinas a Sir Abertawe gan Mrs Rowan Rees, Dr Andrew Rees a Dr Richard Beynon o dan adran 15(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ac yn unol â Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae'r cais yn gofyn am gynnwys yn y gofrestr o feysydd tref a phentref y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen isod yr honnir ei fod yn gymwys i'w gofrestru'n faes tref neu bentref ar 10 Medi 2024 oherwydd

Mae'r cais yn ceisio ffurfioli a gwarchod y defnydd sefydledig. Mae nifer sylweddol o breswylwyr lleol wedi defnyddio'r tir 'gyda hawl gyfreithiol' at ddibenion chwaraeon a hamdden cyfreithlon dros gyfnod o 20 mlynedd ac maent yn parhau i wneud hynny ar adeg y cais. Nid yw mynediad i'r tir at ddibenion chwaraeon a hamdden cyfreithlon wedi'i wahardd ac nid yw'r perchnogion tir erioed wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r tir at y dibenion a grybwyllwyd uchod ac ni roddwyd caniatâd i ddefnyddio'r tir gan y perchnogion tir hyd eithaf gwybodaeth y bobl hynny sydd wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden cyfreithlon a'r bobl hynny sy'n parhau i ddefnyddio'r tir at ddibenion hamdden 'gyda hawl gyfreithiol'.

Gellir archwilio'r cais, sy'n cynnwys cynllun y tir a gynigiwyd i'w gofrestru yn y swyddfa ganlynol:

Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Ddinesig
Oystermouth Road
Abertawe
SA1 3SN

O fewn oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir hefyd archwilio copïau o'r dogfennau yn swyddfeydd canlynol yr awdurdod lleol Pennard Community Hall, Pennard Road, Pennard Swansea, SA3 2AD

Os yw'r awdurdod cofrestru wedi'i fodloni bod y tir a ddisgrifir isod yn gymwys i'w gofrestru'n faes tref neu bentref, fe fydd yn cofrestru'r tir fel y cyfryw.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cofrestru'r tir yn faes tref neu bentref anfon datganiad o'r ffeithiau y seilir y gwrthwynebiad arnynt i Ddinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN ar DDYDDIAD neu cyn hynny

16 Rhagfyr 2024

Ni ellir trin unrhyw ddatganiadau y bydd yr awdurdod yn eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ar y cais yn gyfrinachol a chânt eu hanfon at yr ymgeisydd am sylwadau a gellir eu datgelu i bartïon eraill â diddordeb.

Dyddiad: 29 Hydref 2024

Llofnod: 

Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas

Atodlen

Disgrifiad o'r tir yr honnir ei fod yn gymwys i'w gofrestru yn faes tref neu bentref

Mae'r tir dan sylw yn dir comin cofrestredig ac mae'n rhan o CL:013 Clogwyni Pennard ac mae i'r ogledd-ddwyrain o Glwb Golff Pennard. Mae'r tir yn ffinio â Pennard Road ac mae'n cynnwys tua dwy erw.

Form 45 Commons Act 2006 – Section 15(1)

Notice of an application for the registration of land as a Town or Village Green

To every reputed owner, lessee, tenant or occupier of any part of the land described below, and to all others whom it may concern.

Application has been made to the City & County of Swansea by Mrs Rowan Rees, Dr Andrew Rees and Dr Richard Beynon under section 15(1) of the Commons Act 2006 and in accordance with the Commons (Registration of Town or Village Greens) (Interim Arrangements) (Wales) Regulations 2007 (“the 2007 Regulations”). The application seeks the inclusion in the register of town and village greens of the land described in the Schedule below which is claimed to have qualified for registration as a town or village green on 10th September 2024 by virtue of the following justification:

The application seeks to formalise and protect the long-established use. A significant number of local inhabitants have indulged ‘as of right’ in lawful sports and pastimes on the land for a period of over 20 years; and they continue to do so at the time of the application. Access to the land for lawful sports and pastimes has never been prohibited and permission to use the land for the aforementioned purpose has never been sought from, or granted by the landowners to the best of knowledge of those persons known to have indulged in lawful sports and pastimes and these persons continue to indulge in the aforementioned pastimes on the land ‘as of right’.

The application which includes a plan of the land proposed for registration may be inspected at the following office:

City & County of Swansea
Civic Centre
Oystermouth Road
Swansea
SA1 3SN

Within office hours Monday to Friday. Copies of the documents may also be inspected at the following local authority office - Pennard Community Hall, Pennard Road, Pennard, SA3 2AD

If the registration authority is satisfied that the land described below qualifies for registration as a town or village green, it will so register the land.

Any person wishing to object to the registration of the land as a town or village green should send a statement of the facts on which the objections is based to City & County of Swansea, Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea, SA1 3SN on or before

16th December 2024

Any statements that are to be taken into account by the Authority in reaching a decision on the application cannot be treated as confidential and will be copied to the applicant for comment and may be disclosed to other interested parties.

Dated: 29th October 2024

Signed: 
Head of Planning & City Regeneration


Schedule

Description of the land claimed to have qualified for registration as a town or village green

The land in question is registered common land and forms part of CL:013 Pennard Cliffs and lays on the Northeast of Pennard Golf Club. The land abuts Pennard Road and consists of approximately two acres.



CITY AND COUNTY OF SWANSEA
Application for Registration of Town or Village Green
Section 15 Commons Act 2006
Land at Pennard abutting Pennard Road



 Area subject to application

Scale 1:2500

© Crown copyright [and database rights] [2024] OS [AC0000822618]
 © Hawlfraint y Goron [a hawliau cronfa ddata] [2024] Arolwg Ordans [AC0000822618]